



Ymateb i Ymchwiliadau Tlodi y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Cymunedau yn Gyntaf – Y Gwersi a Ddysgwyd (Mai 2017)

Cyflwyniad

- 1.1 Mae Cyngor at Bopeth Cymru yn croesawu'r cyfle i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i helpu i lywio un o'i ymchwiliadau tlodi sy'n archwilio'r gwersi a ddysgwyd o raglen Cymunedau yn Gyntaf.

Byddem yn croesawu'r cyfle hefyd i drafod unrhyw un o'r meysydd a grybwyllir yn y papur hwn gyda'r Pwyllgor.

- 1.2 Mae Cyngor ar Bopeth yn elusen annibynnol, a sefydlwyd ym 1939, sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr. Yng Nghymru, mae gennym rwydwaith o 19 Cyngor ar Bopeth Lleol, sydd i gyd yn elusennau unigol ac sy'n cael eu staffio gan bron i 800 o wirfoddolwyr a staff ymroddedig.
- 1.3 Rydym yn darparu cyngor ar faterion bob dydd amrywiol i unrhyw un sydd ei angen, o ddyledion, arian a budd-daliadau lles i dai, cyflogaeth, gwahaniaethu a pherthynas bersonol. Mae ein sesiynau addysg ariannol a rhaglenni uchafu incwm yn helpu pobl i reoli eu harian hefyd a sicrhau bod y rhai mewn angen yn hawlio'r holl gymorth y mae ganddynt hawl iddo.
- 1.4 Rydym yn dymchwel y rhwystrau i gyngor drwy fynd i leoedd lle mae pobl ein hangen fwyaf, a darparu cyngor o dros 375 o leoliadau cymunedol yng Nghymru, ynghyd â chynnig gwasanaethau dros y ffôn ac ar-lein.

1.5 Mae miliynau o bobl yn troi atom ni bob blwyddyn ledled Cymru a Lloegr. Mae hyn yn rhoi darlun unigryw i ni o'u hanghenion a'u pryderon. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i ymgychu ar faterion pwysig, yn lleol ac yn genedlaethol. Felly rydym yn helpu pawb mewn rhyw ffordd neu'i gilydd – nid y rhai rydym yn eu cynorthwyo'n uniongyrchol yn unig.

1.6 Rhwng 2016 a 2017, llwyddodd Cyngor ar Bopeth lleol yng Nghymru i helpu **dros 114,000 o bobl** gyda **mwy na 436,000 o broblemau** – gyda budd-daliadau a chredydau treth (42% o bob problem) a dyledion (30% o bob problem) yn achosi'r gofid mwyaf. Roedd y meysydd cyngor cyffredin eraill yn cynnwys gwasanaethau a gallu ariannol; cyflogaeth a thai.

Roedd bron i hanner yr holl gleientiaid a gynorthwywyd yn 2016 i 2017 (49%) yn anabl neu roedd ganddynt gyflwr iechyd hirdymor (o'i gymharu â chyfartaledd y boblogaeth o 23%). Mae dadansoddiad mewnol wedi dangos hefyd bod oddeutu dwy ran o dair o'n cleientiaid yng Nghymru'n byw o dan y llinell dlodi.

Cyngor ar Bopeth a Cymunedau yn Gyntaf

2.1 Ers mis Hydref 2013, mae Cyngor ar Bopeth Cymru wedi rheoli Prosiect Rhannu Canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth Cymru. Mae'r cyllid presennol tan ddiwedd mis Mawrth 2018. Mae'r prosiect yn darparu cyngor annibynnol, eirioli a chynrychiolaeth i bobl agored i niwed sy'n byw mewn **42 Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf**.

Mae hyn yn cynnwys:

- darparu cyngor ar faterion lles cymdeithasol amrywiol (budd-daliadau, dyledion, tai, cyflogaeth a theulu)
- darparu cyngor cyffredinol ac arbenigol, hyd at lefel gwaith achos, i helpu pobl leihau a rheoli eu dyledion a chynorthwyo pobl i gael gafael ar y budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt
- darparu gwasanaethau gallu ariannol i alluogi pobl i reoli eu harian yn well
- helpu pobl i leihau costau'r aelwyd, e.e. ynni, dŵr, cyfleustodau eraill.

2.2 Yn 2016/17, llwyddwyd i helpu **15,850 o gleientiaid** drwy'r prosiect hwn mewn **111 lleoliad allgymorth**. Yn ystod y cyfnod hwn, o ganlyniad i ymyrraeth drwy roi cyngor, cynorthwywyd cleientiaid i reoli neu ddileu dyledion o **dros £11.8 miliwn** a chael gafael hefyd ar **dros £13 miliwn** mewn budd-daliadau yr oedd ganddynt hawl iddynt.

Y tu allan i brosiect Cyngor ar Bopeth Cymru, mae Cyngor ar Bopeth lleol ym

Mhen-y-bont ar Ogwr, Sir Ddinbych a Sir Benfro wedi darparu gwasanaethau i Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf hefyd, drwy gomisiynu uniongyrchol gan y Cyrff Cyflenwi Arweiniol yn yr ardaloedd hynny. Ond yn y blynyddoedd diwethaf, ac ers i Lywodraeth Cymru benderfynu dileu Cymunedau yn Gyntaf yn raddol, dim ond cyllid ym Mhen-y-bont ar Ogwr sy'n parhau tan fis Mawrth 2018. Mae cyllid yn y ddwy ardal arall wedi dirwyn i ben.

Effeithlonrwydd Cymunedau yn Gyntaf

3. Beth weithiodd yn dda

- 3.1 Mae nifer o fanteision i ddulliau seiliedig ar ardal, fel Cymunedau yn Gyntaf, i drechu tlodi:
- mae targedu ardaloedd penodol gyda lefelau uchel o amddifadedd yn golygu bod gwell cyfle o gyrraedd pobl sydd â'r angen mwyaf
 - mae pobl sy'n byw yn yr ardaloedd hynny yn gallu elwa ar bob math o weithgarwch a chymorth amrywiol
 - mae darparu gwasanaethau'n lleol/ mynd at y bobl yn lleihau'r angen am deithio a allai fod yn ddrud ac yn ei gwneud yn haws i bobl, yn enwedig y rhai â phroblemau symudedd neu ymrwymadau gofal (neu rai a allai boeni am deithio'n rhy bell) gael mynediad i'r cyngor sydd ei angen arnyn nhw
 - mae'n helpu i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau lleol i bobl nad ydynt yn ymwybodol o reidrwydd o'r help sydd ar gael neu'n amharod i chwilio am help.
- 3.2 I raddau helaeth, mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn cefnogi'r dull 'o'r gwaelod i fyny' sydd wedi'i fabwysiadu gan y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf gan ei fod yn helpu i sicrhau bod darpariaeth gwasanaethau yn seiliedig ar anghenion lleol a bod y gymuned yn cyfrannu at ddatblygu prosiectau a gweithgareddau sydd â'r nod o helpu pobl leol. Mae hefyd yn helpu i atal dyblygu gwasanaethau gan wahanol ddarparwyr.
- 3.3 Mae ein Prosiect Rhannu Canlyniadau yn dangos y ffordd drawsbynciol y gall sefydliadau amrywiol gydweithio i gyflawni'r amcan o drechu tlodi yng Nghymru. Mae swyddfeydd Cyngor ar Bopeth Lleol wedi sefydlu partneriaethau effeithiol gyda Chyrff Cyflenwi Arweiniol Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf / Rheolwr Clystyrau, gan eu galluogi i dargedu a chyflwyno gwasanaethau Cyngor ar Bopeth mewn ardaloedd anghysbell a difreintiedig lle nad oedd unrhyw ddarpariaeth cyngor yn y gymuned yn flaenorol.

Maent wedi datblygu mecanweithiau cyfeirio mwy effeithiol hefyd gyda sefydliadau eraill sydd wedi esblygu yn ystod oes y prosiect, gan gynnwys Cychwyn Cadarn, Teuluoedd yn Gyntaf, Cefnogi Pobl, sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl sy'n dioddef cam-drin domestig, sefydliadau anabledd, undebau credyd a banciau bwyd. Mae gweithio'n gydweithredol yn sicrhau bod y cleient yn gallu defnyddio gwasanaethau tymor hirach a chyfannol i ddiwallu eu hanghenion cyffredinol yn hytrach nag ymyrraeth fwy cyfyngedig, ac felly helpu i dorri'r cylch dibyniaeth drwy hynny. Mae'n galluogi sefydliadau i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r gwahanol wasanaethau y maent yn eu darparu hefyd. **Mae Cyngor ar Bopeth Merthyr Tudful wedi darparu astudiaeth achos enghreifftiol o sut mae hyn wedi gweithio yn ymarferol - gweler yr Atodiad i'r ymateb hwn am fanylion.**

4. Beth na weithiodd yn dda

- 4.1 Mae tystiolaeth Cyngor ar Bopeth yn helpu i dynnu sylw at sut mae pobl sy'n byw mewn tloidi yn wynebu'r un math o broblemau ble bynnag y maent yn byw, sef incwm isel, dyledion, diweithdra, a diffyg tai addas a thalu mwy am lawer o nwyddau a gwasanaethau bob dydd (y cyfeirir ato'n aml fel y 'premiwm tloidi').
- 4.2 Mae canlyniadau ein Prosiect Rhannu Canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf yn gadarnhaol iawn, fodd bynnag un o brif anfanteision unrhyw fenter wrthdlodi sy'n seiliedig ar le i raddau helaeth yw bod pobl mewn angen sy'n byw y tu allan i'r ardaloedd diffiniedig yn cael eu heithrio o'r cymorth sydd ar gael. Gall hyn ddigwydd pan fo ffiniau o fewn yr un trefi/dinasoedd (a all achosi rhaniadau o fewn rhai cymunedau), ond mae'n broblem arbennig mewn ardaloedd gwledig gyda phoblogaethau mwy gwasgaredig. Efallai bod cefn gwlad Cymru yn well eu byd na gweddill Cymru, ar gyfartaledd, ond mae pocedi sylweddol o amddifadedd yn parhau mewn llawer o gymunedau gwledig nad ydynt yn gallu derbyn y cymorth cyllid sydd ar gael drwy raglenni Llywodraeth Cymru fel Cymunedau yn Gyntaf. Mae effaith byw mewn tloidi yn cael ei waethygu mewn ardaloedd gwledig yn sgil nifer o ffactorau hefyd, gan gynnwys mynediad ffisegol gwael i wasanaethau, allgáu digidol a chostau byw uwch.
- 4.3 Anfantais arall o fabwysiadu dull o ddarparu gwasanaethau sy'n cael ei arwain gan y gymuned yw ei fod yn dibynnu'n drwm ar gryfder arweinyddiaeth leol a gall arwain at anghysondeb ar draws gwahanol ardaloedd. Dangosodd adborth gan ein cynghorwyr prosiect mewn rhai ardaloedd bod trosiant staff mewn sefydliadau eraill a chyfathrebu gwael yn ffactorau sydd wedi cyfrannu at rwystro cynnydd.

5. Effaith diwedd Cymunedau yn Gyntaf

- 5.1 Er bod ystadegau swyddogol yn dangos bydd yr economi'n gwella, mae'r raddfa gyflogaeth ar gyfer pobl o oedran gweithio yng Nghymru yr isaf ond un o holl genhedloedd y DU (gyda dim ond Gogledd Iwerddon yn is)¹. Yn aml, mae angen cael mynediad i gyngor, yn enwedig cyngor ar ddyled, budd-daliadau, cyflogaeth a thai, er mwyn dymchwel y rhwystrau i bobl gael swyddi, aros mewn cyflogaeth neu ddychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnod o salwch.

Mae diwygio lles parhaus, ac effaith y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, yn golygu hefyd y bydd llawer o aelwydydd yng Nghymru yn parhau i wynebu ansicrwydd economaidd ac ariannol am flynyddoedd i ddod. Felly, mae'r angen am gyngor i gefnogi pobl drwy newid ac ansicrwydd o'r fath yn fwy nag erioed.

- 5.2 Rydym yn croesawu'r flaenoriaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i wasanaethau cyngor a chymorth, gan gynnwys y cyllid diweddar i Gyngor ar Bopeth Cymru ar gyfer parhau â'r Prosiect Rhannu Canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf tan fis Mawrth 2018. Fodd bynnag, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi ystyriaeth lawn i unrhyw ganlyniadau anfwriadol a allai godi yn dilyn ailgynllunio neu ddirwyn rhaglenni cyfredol i ben ar gyfer lleihau tlodi a meithrin cymunedau cadarn yng Nghymru.

Er enghraifft, mae'r newid diweddar mewn pwyslais yng nghyllid Teuluoedd yn Gyntaf wedi arwain at ostyngiad yn y gwasanaethau cyngor gwerthfawr a ddarperir gan 10 Cyngor ar Bopeth lleol ledled Cymru. Cyflogodd cyllid Teuluoedd yn Gyntaf 15.6 o gynghorwyr cyfwerth â llawn amser, gan ddarparu gwasanaethau i gleientiaid agored i niwed mewn pynciau amrywiol, gan gynnwys dyledion arbenigol a budd-daliadau lles, gallu ariannol trylwyr a gyda chymorth ac uchafu incwm. Roedd hyn yn cynnwys 9 o weithwyr achos arbenigol hawliau lles ac arbenigwyr dilynol dyledion a gallu ariannol. Edrychodd darpariaeth Teuluoedd yn Gyntaf lleol ar yr anghenion penodol yn yr ardal a chwilio am ffyrdd o ddarparu gwasanaethau priodol sy'n diwallu anghenion teuluoedd a'u plant, gyda llawer ohonynt yn byw bywydau cymhleth iawn. Galluogodd gwaith a wnaed drwy'r ffrwd gyllid hon i gynghorwyr weithio gyda theuluoedd dros gyfnod hirach ac roedd yn cynnwys ymweliadau cartref yn ogystal â gwasanaeth gwaith achos llawn. Credwn bod angen y math hwn o wasanaeth o hyd, sy'n dangos canlyniadau llawer gwell ar gyfer y cleient. **Mae Cyngor ar Bopeth Caerffili a Blaenau Gwent wedi darparu astudiaeth achos enghreifftiol o sut mae hyn wedi gweithio yn ymarferol - gweler yr Atodiad i'r ymateb hwn am fanylion.**

¹ Ystadegau Marchnad Lafur Rhanbarthol ONS (Ebrill 2017)

- 5.3 Un o nodweddion allweddol ein darpariaeth cyngor Cymunedau yn Gyntaf yw ein bod yn darparu hyn drwy fynd i gymunedau a gweithio gyda phartneriaid eraill i gynyddu gallu a mynediad i bobl sydd yn y perygl mwyaf o fyw ar aelwydydd incwm isel, yn enwedig pobl anabl, unig rieni, grwpiau lleiafrifoedd ethnig penodol a theuluoedd â phlant anabl.

Pan fydd y rhaglen yn dirwyn i ben bydd ein darpariaeth mewn lleoliadau allgymorth yn gostwng yn sylweddol iawn yn llawer o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Ar hyn o bryd, mae cyllid yn talu am ddarpariaeth mewn 105 o leoliadau allgymorth ar draws 42 clwstwr. Mae hyn yn cynrychioli bron i 40% o'n holl leoliadau allgymorth yng Nghymru. Byddai hefyd yn arwain at lai o weithwyr gwaith achos cyngor yn gyffredinol - ar hyn o bryd mae'r Prosiect Rhannu Canlyniadau yn cyllido 50 o staff Cyngor ar Bopeth lleol cyfwerth â llawn amser.

- 5.4 Os nad ydym yn gallu darparu gwasanaethau wedi'u targedu mewn cymunedau lleol, gan ddefnyddio model cyflenwi tebyg i Cymunedau yn Gyntaf, byddem yn rhagweld mwy o ddibyniaeth ar ein gwasanaethau craidd cyfyngedig (wyneb yn wyneb a ffôn) sydd eisoes dan bwysau. Mae ein gwasanaethau craidd mewn perygl hefyd o ostyngiadau yng nghyllid awdurdodau lleol.

Yn ogystal â hyn, yn aml mae'r rhaglenni y mae Cymunedau yn Gyntaf yn eu cynnig yn nodi anghenion cleientiaid am ein gwasanaethau na fyddem yn gwybod amdanynt fel arall o reidrwydd, ac i'r gwrthwyneb. Mae rhai pobl yn teimlo'n fwy hyderus yn cysylltu â gwasanaethau sydd wedi'u hargymell yn lleol, yn hytrach na defnyddio gwasanaeth mwy canolog. Gallai gostyngiad mewn gwasanaethau allgymorth lleol olygu hefyd na fydd llawer o gleientiaid yn gallu defnyddio ein gwasanaeth craidd oherwydd diffyg trafndiaeth, cyllid, allgáu digidol, cyfrifoldebau gofalu neu ymrwymadau gwaith. Efallai y bydd eraill yn llai tebygol o chwilio am gyngor o gwbl, gan arwain at beidio datrys problemau a'r problemau hynny'n gwaethygu.

- 5.5 Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn credu y dylai gwasanaethau cyngor barhau i fod yn rhan ganolog o unrhyw raglen a fydd yn olynu Cymunedau yn Gyntaf. Dylid parhau i gydnabod rôl gwasanaethau cyngor â sicrwydd ansawdd wrth leihau tlodi, gwella cyflogadwyedd a thorri'r cylch dyled a dibyniaeth fel cyfranogwr allweddol at gyflawni nodau Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae ein tystiolaeth yn dangos gwerth cyngor wrth wella llesiant cyffredinol pobl - dywedodd 4 o bob 5 cleient Cyngor ar Bopeth bod

cyngor wedi gwella'u bywydau, gan gynnwys lleihau straen a gwella'u sefyllfa ariannol, tra bod 2 o bob 3 cleient wedi cael datrys eu problem².

Wrth gynllunio unrhyw raglenni lleihau tlodi newydd, mae angen i wasanaethau cyngor fod yn gwbl glir a chael eu cefnogi'n ariannol gyda rhwydweithiau effeithiol wedi'u sefydlu i sicrhau bod pobl yn derbyn y cymorth cywir ar yr adeg gywir gan ffynhonnell gymwys annibynnol a phriodol. Gallai diffyg darpariaeth cyngor gwerthfawr yn lleol, sy'n targedu rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymunedau, arwain at gynnydd mewn tlodi, dyledion, digartrefedd, teuluoedd yn chwalu a dadleoli.

Rydym yn credu hefyd y dylai rhaglen o'r fath ddiwallu anghenion cymorth pob unigolyn sy'n wynebu anfantais, heb gyfyngu mynediad i ardaloedd daearyddol penodol. Felly, rydym yn croesawu cyhoeddiad Llywodraeth Cymru na fydd eu dull newydd yn cael ei gyfyngu gan y cod post y mae pobl yn byw ynddo.

Am ragor o wybodaeth am yr ymateb hwn, cysylltwch â:

Lindsey Kearton
Swyddog Polisi
Cyngor ar Bopeth Cymru
Llinell uniongyrchol: 03000 231 392

E-bost: Lindsey.Kearton@citizensadvice.org.uk

² [Helping people find a way forward - a snapshot of our impact in 2015-16](#)

Atodiad:

Prosiect Rhannu Canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf Astudiaeth Achos: Cyngor ar Bopeth Merthyr Tudful

Mae ein cleient yn hanu o Wlad Pwyl a symudodd i fyw i'r DU gyda'i thri plentyn dibynnol. Roedd ei phartner yn byw yma eisoes gyda hawl i breswyllo, felly roeddynt yn gallu cael mynediad i system budd-daliadau'r DU. Roedd ganddynt hawliadau byw, fel pâr, am gredydau treth, budd-dal plant a budd-dal tai/gostyngiad y dreth gyngor.

Fodd bynnag, bu'n rhaid i'r cleient adael ei phartner ar ôl cael ei cham-drin yn gorfforol. Bryd hynny, gofynnodd am gyngor gan Focal Point, sef prosiect lleol i helpu ymfudwyr sy'n byw yn y DU, ac fe'i hatgyfeiriwyd at Bawso. Atgyfeiriodd Bawso y cleient at Cyngor ar Bopeth Merthyr Tudful gael cyngor ar fudd-daliadau. Ni allai ddibynnu ar ei hawliadau budd-daliadau a oedd yn eu lle mwyach, gan eu bod yn enw ei chyn bartner. Roedd hyn yn golygu bod ganddi incwm cyfyngedig iawn i gynnal ei hun a'i thri phlentyn. Fe'i hatgyfeiriwyd at Cartrefi Cymoedd Merthyr (MVH) hefyd am gymorth tai cymdeithasol.

Cwblhaodd Cyngor ar Bopeth Merthyr Tudful asesiad o'i hamgylchiadau yn eu canolfan allgymorth Cymunedau yn Gyntaf yn Cartrefi Cymoedd Merthyr (MVH). Maent yn darparu'r allgymorth hwn fel apwyntiadau cyffredinol yn y bore a gwasanaeth galw heibio yn y prynhawn ar gyfer cleientiaid Pwylaidd/Portiwgalaidd/Tsiecaidd. Mae Focal Point ar gael ar yr un adeg a'r gwasanaeth galw heibio i sicrhau y gall y naill sefydliad a'r llall gydweithio i ddarparu mynediad i gyfieithwyr. Trafododd ein cyngorydd opsiynau'r cleient a darparu cymorth ymarferol i'w helpu i wneud cais am yr holl fudd-daliadau yr oedd ganddi hawl iddynt, a oedd yn cynnwys lwfans ceiswyr gwaith, budd-dal tai a gostyngiad y dreth gyngor, ynghyd â newid ei chredydau treth o hawliad pâr i hawliad person sengl. Yn sgil oedi wrth brosesu ei hawliadau budd-daliadau, gweithiodd ein cyngorydd yn agos gyda MVH i sicrhau bod tenantiaeth y cleient yn parhau yn ystod y cyfnod hwn.

Roedd ein cleient yn ysu am ddod o hyd i waith i sefydlogi ei sefyllfa ariannol, ac i'w galluogi hi a'i phlant i aros yn y DU; y lle roedden nhw'n dechrau ei alw'n gartref. Gan fod y cleient yn ddinesydd Ardal Economaidd Ewropeaidd, roedd hyn yn golygu bod ei hawliadau lwfans ceiswyr gwaith a budd-dal tai yn cael eu cyfyngu gan amser. Felly, cafodd ei hatgyfeirio gan Cyngor ar Bopeth Merthyr Tudful at glybiau swyddi lleol Cymunedau yn Gyntaf. Ar ôl hysbysu MVH o'i sefyllfa, yn enwedig mewn perthynas â'i statws Ardal Economaidd Ewropeaidd, cynigiwyd swydd

ran-amser i'r cleient yn y cwmni fel glanhawraig. Roedd hyn yn golygu nad oedd y cleient yn gorfod poeni am arian a rhoddodd y sefydlogrwydd iddi symud ymlaen.

Parhaodd Cyngor ar Bopeth Merthyd Tudful i gefnogi'r cleient gyda'i hawl i fudd-daliadau yn dilyn y newid i'w hamgylchiadau. Bellach, mae'n mynychu cwrs Saesneg drwy gymorth gan Focal Point ac mae'n dweud bod ei bywyd wedi gwella'n arw yn gyffredinol. Mae hwn yn ganlyniad rhagorol i'r cleient na fyddai wedi'i gyflawni heb ymyrraeth yr holl sefydliadau dan sylw.

Teuluoedd yn Gyntaf

Astudiaeth Achos: Cyngor ar Bopeth Caerffili a Blaenau Gwent

Mae ein cleient yng nghanol ei thridegau ac yn rhannu ei heiddo Cartrefi Caerffili gyda'i phartner a'i dau blentyn. Yn flaenorol, roedd wedi gweithio i fanc stryd fawr adnabyddus, ond nid yw wedi gallu gweithio ers dwy flynedd oherwydd problemau iechyd corfforol difrifol. Yn y gorffennol, mae wedi dioddef cam-drin domestig difrifol ac mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn credu ei bod yn dioddef Anhwylder Straen wedi Trawma.

Atgyfeiriodd Cyngor Caerffili y cleient at 'Brosiect Hyder gydag Arian' Cyngor ar Bopeth Caerffili a Blaenau Gwent, a gyllidwyd gan Teuluoedd yn Gyntaf. Ar adeg ei hatgyfeirio, roedd gan y cleient ddyledion niferus, rhai â blaenoriaeth a rhai heb flaenoriaeth, gan gynnwys ôl-ddyledion rhent, ac roedd yn wynebu cael ei throï allan. Roedd yn dioddef o iselder ysbryd a diffyg hunanhyder hefyd, ac nid oedd ganddi'r cymhelliant i reoli ei harian. Felly, roedd magu ymddiriedaeth yn rhan hollbwysig o'r rhaglen i ddechrau. Roedd pob apwyntiad yn ymweliad cartref. Roedd hyn yn galluogi i'r sesiynau fod yn hamddenol ac anffurfiol ac yn rhoi cyfle ar gyfer dysgu rhyngweithiol un i un. Gan fod y cleient yn ei chael yn anodd canolbwyntio am gyfnodau maith, trefnwyd ymweliadau byrrach.

Cymrodd y cleient ran yn y rhaglen am 10 mis. Yn ystod y cyfnod hwn, derbyniodd gymorth i reoli ei dyledion a chymorth gallu ariannol dwys yn seiliedig ar ei hanghenion penodol. Roedd hyn yn cynnwys llunio cyllideb ymarferol, cymorth i ymdopi â'i biliau ynni (a arweiniodd at yr aelwyd yn newid cyflenwyr ynni ac arbed £68 y mis), a gweithio drwy ei hawliau budd-daliadau.

Ar ôl hynny, atgyfeiriwyd y cleient at gynghorydd budd-daliadau arbenigol a oedd yn gweithio ar brosiect Cyngor Gwell Bywydau Gwell Cyngor ar Bopeth, a'i cynorthwyodd i gwblhau'r ffurflenni cais perthnasol. Dyfarnwyd Taliad Annibyniaeth Personol o £7,267 iddi (£139.75 yr wythnos - cyfradd uwch byw bob dydd a symudedd), a gwelwyd hefyd ei bod yn gymwys i dderbyn premiwm anableded Budd-dal Tai. Roedd gan ei phartner hawl i hawlio £62.10 yr wythnos o Lwfans Gofalwr hefyd.

Unwaith y bydd yn gallu rheoli ei chyflyrau meddygol, mae'r cleient yn gobeithio dychwelyd i'r gwaith, gan agor ei busnes crefftau ei hun. Felly, trafodwyd cymorth/cefnogaeth hunangyflogaeth a gweithwyr newydd hefyd.

Erbyn y sesiwn derfynol, roedd yn amlwg bod y cleient wedi'i hysbrydoli ac wedi magu digon o hyder yn ei galluoedd i symud ymlaen. Llwyddodd i gwblhau y rhaglen gallu ariannol Hyder gydag Arian a chyflawni pob cymhwysedd (sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiad) ar Lefel Datblygu'r Fframwaith Gallu Ariannol Oedolion. Meddai'r cleient: "Mae fy nghynghorydd wedi bod yn wych. Doeddwn i ddim yn disgwyl cymaint o gymorth na gwasanaeth mor rhagorol ... roedden nhw [y cynghorwyr] yn fy nhrin i'n gwbl gyfartal .. Mae fy mywyd wedi newid er gwell ers derbyn eu cymorth a'u cyngor. Diolch."